

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD
16 HYDREF 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 16 Hydref 2018.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ray Hughes (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, Cindy Hinds, Dave Hughes, Joe Johnson, Colin Legg, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

DIRPRWYON: Y Cynghorydd: Mike Peers (ar ran Veronica Gay)

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad, y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod Y Cyhoedd, y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd, Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd, Rheolwr Cyllid a Rheolwr Mynediad ac Amgylchedd Naturiol.

HEFYD YN BRESENNOL: Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

20. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni dderbyniwyd dim.

21. CYNIGION CAM 2 CYLLIDEB 2019/20

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad ar gynigion cyllideb cam 2 ar gyfer Portffolio Strydwedd a Chludiant a rhan o'r Portffolio Cynllunio, Amgylchedd ac Economi ar gyfer 2019/20. Darparodd wybodaeth gefndir a chyfeiriodd at weithdy a gynhaliwyd ar 11 Hydref, a roddodd gyfle i Aelodau i ddeall cyllideb portffolio yn fwy manwl a'r risgiau a lefelau gwydnwch meysydd gwasanaeth. Adroddodd y Prif Swyddog ar bwysau portffolio, buddsoddiadau, a chynllunio arbedion effeithlonrwydd busnes Portffolio fel y nodir yn yr adroddiad mewn perthynas â Strydwedd a Chludiant.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Shotton i leihad mewn incwm o ailgylchu gwastraff. Eglurodd y Prif Swyddog bod yr incwm o wastraff ailgylchu, a phlastig, cerdyn a phapur er enghraifft, wedi gostwng yn sylweddol oherwydd colli marchnadoedd rhyngwladol a chyfeiriwyd at fentrau sydd yn cymryd lle i gynnal y farchnad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Paul Shotton ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio plastig yn lle Bitumen i atgyweirio arwynebedd ffyrdd a ceudyllau, dywedodd Prif Swyddog Strydwedd a Chludiant bod trafodaethau yn digwydd gyda chwmni lleol mewn perthynas â hyn, a bwriedir bod sampl o ddeunydd yn cael ei ddarparu ar gyfer ei dreialu yn y dyfodol agos. Byddai aelodau yn cael eu gwahodd i ymweld â'r cwmni i edrych ar y cynnyrch a phan

fydd gwybodaeth pellach ar gael, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu ar y canfyddiadau.

Cododd y Cynghorydd Mike Peers nifer o ymholiadau. Cyfeiriodd at incwm o waith allanol (Gweithdy Fflyd) a gofnodwyd fel £0.010m yn yr adroddiad, ac ar dudalen 3 y datganiad gwytnwch nodwyd £10.00. Hefyd gofynnodd am gadarnhad a oedd y casgliadau sbwriel bob 3 wythnos yn rhan o'r cynigion ar y pryd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at yr arbedion o £30k yn 2015/16 yn dilyn cau'r ganolfan wybodaeth yng ngorsaf bws yr Wyddgrug, a dywedodd ei fod yn ymddangos bod arian yn cael ei wario ar gyllid grant. Cadarnhaodd y Prif Swyddog bod y grant gorsaf bysiau gan Lywodraeth Cymru a bod y £30k a gyfeiriwyd ato yn arbedion refeniw yn dilyn cau'r ganolfan wybodaeth bychan yng ngorsaf bws yr Wyddgrug.

Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas nad oedd penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch gwasanaeth casglu sbwriel bob 3 wythnos, ond dywedodd oherwydd y setliad cyllideb diweddaraf a'r gostyngiadau pellach mewn cyllid nad oedd yn bosib ei anwybyddu fel dull arbed cyllid posibl ar hyn o bryd. Dywedodd y byddai newid y gwasanaeth casglu gwastraff bob 3 wythnos yn gallu gwneud arbedion o £800k.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Owen Thomas ynghylch gwastraff ochr, cyfeiriodd y Prif Swyddog at y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â'r broblem o wastraff ochr a oedd yn cael ei adael i'w casglu. Dywedodd bod 1,400 o lythyrau rhybuddio wedi'u hanfon at breswylwyr a busnesau a dywedodd mai dim ond 30-40 o achosion oedd wedi symud i'r ail gam o roi rhybudd. Dywedodd y Prif Swyddog gan oedd unrhyw Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi'u rhoi a dywedodd mai'r nod oedd ymgysylltu ac annog pobl i wella ailgylchu eu gwastraff. Dywedodd bod y gost a gwerth ailwerthu isel o wastraff wedi'i ailgylchu a'r angen i ddod o hyd i ddefnydd cynaliadwy amgen er lles yr amgylchedd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Mike Peers ynghylch costau mynediad, a godwyd yn y gweithdy cyllideb, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) bod y ffigurau yn cyfeirio at 20 swydd llawn amser. . Ychwanegodd y Cynghorydd Carolyn Thomas bod ychydig o'r gwaith yn orfodol. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai adroddiad yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol gyda manylion pellach am y gwasanaethau gorfodol a ddarperir.

Gofynnodd y Cynghorydd David Evans am adroddiad ar fanteision ac anfanteision symud i wasanaeth casglu gwastraff bob 3 neu 4 wythnos, gyda gwybodaeth a oedd wedi'i gynnwys ynghylch profiadau awdurdodau a oedd wedi cyflwyno casgliadau bob 3 neu 4 wythnos.

Gofynnodd y Cynghorydd Cindy Hinds os oedd gwastraff plastig yn cael ei didoli yng nghanolfannau ailgylchu. Eglurodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) bod plastig cymysg yn cael ei gasglu ac wedyn ei werthu fel plastig cymysg. Roedd gwerth plastig wedi'i wahanu ychydig yn fwy, ond roedd cost i wahanu'r plastig. Dywedodd bod gwaith yn cael ei gyflawni i edrych ar yr achos busnes i wahanu'r plastig, fodd bynnag roedd yn teimlo ei bod hi'n bwysig i beidio a gwneud ailgylchu yn fwy cymhleth i breswylwyr a allai effeithio ar gyfraddau

ailgylchu. Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod yn gyson gydag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru o ran gwerthu plastig cymysg. Eglurodd y Cyngorydd Carolyn Thomas bod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn derbyn popeth ar wahân i blastig du a ffilm.

Dywedodd y Cyngorydd Owen Thomas bod cyfaint y deunyddiau gwastraff i'w casglu yn cynyddu a gofynnodd os oedd gan yr Awdurdod gofnodion yn dangos data ar wastraff a gasglwyd dros y pum mlynedd diwethaf. Cyfeiriodd at y deunyddiau gwastraff a gynhyrchwyd gan archfarchnadoedd a siopau eraill a sefydliadau bwyd, a dywedodd er bod yr Awdurdod yn gweithio i gyflawni arbedion, bod swm y gwastraff a gesglir yn cynyddu.

Eglurodd y Cyngorydd Carolyn Thomas ei bod yn lobïo i Lywodraeth Cymru a'r DU i leihau faint o blastig a gwastraff a gynhyrchir, a dywedodd bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithio gydag archfarchnadoedd i annog cyfrifoldeb a lleihau'r defnydd o blastig. Mewn ymateb i gwestiwn pellach gan y Cyngorydd Owen Thomas, atebodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) bod y gwastraff yn un o'r diwydiannau a reoleiddir fwyaf a dywedodd bod y data/ystadegau ar gasgliadau gwastraff ac ailgylchu ar gael ac yn cael ei adrodd yn rheolaidd ar wastraff sbwriel ac ailgylchu. Ychwanegodd bod Llywodraeth Cymru yn adolygu eu targedau gyda'r bwriad i gynyddu targedau ailgylchu o 70% i 80%.

Soniodd y Cadeirydd am y broblem o sbwriel yn cael eu taflu o amgylch sefydliadau bwyd brys a sut mae'n difetha yr ardal cyfagos, a gofynnodd os oedd yr Awdurdod wedi codi'r broblem gyda busnesau lleol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog ei fod wedi ysgrifennu at sefydliadau bwyd brys yn Sir y Fflint i amlinellu pryderon y Pwyllgor, a roedd wedi cael ymateb a fydd yn dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor. Cytunodd y Cyngorydd Carolyn Thomas i godi'r mater yn ystod ei chyfarfod â'r Gweinidog yr Amgylchedd y diwrnod canlynol.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y pwyllgor yn cefnogi'r pwysau a buddsoddiadau y portffolio; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r dewisiadau effeithlonrwydd portffolio.

22. ADOLYGU ARCHWILIAD A LEFEL YMYRRAETH DIOGELWCH PRIFFYRDD A MEYSYDD PARCIO AC YMATEB I'R POLISI

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad i adolygu'r Polisi uchod yn unol â'r canllawiau cenedlaethol diwygiedig yn dilyn gweithredu'r cod ymarfer newydd ym mis Hydref 2018. Rhoddodd wybodaeth gefndir a rhoddodd sylw ar gydnabyddiaeth yn y cyhoeddiad cyllideb diweddar o bwysigrwydd y rhwydwaith priffyrdd a darparu twf cynaliadwy ac economaidd a dywedodd y byddai cyllid 3 blynedd ar gael i ailwynebu ffyrdd. Roedd y Prif Swyddog wedi gwahodd Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd i roi trosolwg o'r prif ystyriaethau, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Rhoddodd y Cyngorydd Mike Peers sylw at ddyletswydd statudol y Cyngor fel 'Awdurdod y Briffyrdd' i gynnal priffyrdd sydd wedi'u mabwysiadu gan gynnwys strwythurau priffyrdd o fewn y Sir, a'r posibilrwydd i hawliau godi yn

erbyn y Sir gan ddefnyddwyr priffyrdd oherwydd anaf bersonol neu golled yn codi o ddigwyddiadau neu ddamweiniau oherwydd nad yw dyletswyddau wedi'u cadw atynt. Dywedodd bod rhaid i ddiogelwch y cyhoedd fod yn flaenoriaeth a nid 'dosbarth' y ceudyllau. Gofynnodd os oedd yr Awdurdod yn cyfeirio at ei adroddiadau archwilio wrth ddelio â hawliau sy'n codi o ddigwyddiadau neu ddamweiniau a oedd wedi digwydd ar y rhwydwaith priffyrdd a fabwysiadwyd, ac a oeddynt ar gael i'r Aelodau eu gweld.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers i'r polisi arfaethedig i archwiliadau diogelwch priffyrdd a meysydd parcio, meini prawf ymyriadau ac amseroedd ymateb a oedd wedi'u hatodi yn yr adroddiad. Dywedodd bod y meini prawf adnabod diffygion a mynegodd bryderon bod y categori lle byddai diffygion yn ddibynnol ar ddehongliad. Dywedodd bod angen darparu mwy o fanylion ar y categori coch.

Mynegodd y Cynghorydd Peers bryderon ynghylch amseroedd ymateb ac i roi adborth ar faterion a godwyd gan Aelodau a phreswylwyr mewn perthynas â diffygion, a rhoddodd enghraifft o ddiffyg a oedd wedi'i riportio am geudwill ar ei Ward. Tynnodd sylw at amser ymateb a nodwyd yn y polisi arfaethedig. Ymatebodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd i'r ymholiadau a godwyd gan y Cynghorydd Peers, ac eglurodd bod yr asesiadau risg yn cael eu cyflawni gan y Cydlynnydd Ardal Strydwedd yn unol â'r cod ymarfer. Cytunodd i ddarparu cofnodion ar sail pob achos i Cynghorydd Peers. Gofynnodd Cynghorydd Peers bod y Cydlynnydd Ardal Strydwedd yn darparu diweddariadau rheolaidd i'r Aelodau ar gyflwr y ffyrdd, llwybrau cerdded a meysydd parcio yn eu Wardiau.

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Shotton os dylid rhoi ystyriaeth at ddefnydd o drôn i gynorthwyo Cydlynwyr Ardal Strydwedd i gyflawni eu harchwiliadau diogelwch neu i atgyweirio ceudyllau. Cadarnhaodd y Prif Swyddog bod cyfarpar electronig yn cael ei ddefnyddio yn barod i gynorthwyo archwiliadau diogelwch a chytunodd i edrych ar y defnydd posibl o drôn.

Gan gyfeirio at archwiliadau o strwythurau a waliau cynnal, soniodd y Cynghorydd David Evans ar y broblem o reiliau wedi'u torri a gofynnodd os oedd hyn yn cael ei gynnwys yn yr archwiliadau. Hefyd dywedodd nad oedd unrhyw amserlenni wedi'u nodi yn y polisi arfaethedig ar gyfer atgyweirio neu amnewid unrhyw ddiffygion a nodwyd yn ystod yr archwiliad o'r strwythurau a'r waliau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans at y meini prawf adnabod diffyg a dudalen 21 yr adroddiad, a mynegodd y safbwynt y dylid symud llwybrau beicio i'r un categori a llwybrau cerdded.

Roedd y Rheolwyr Rhwydwaith Priffyrdd yn cydnabod y pwyntiau a godwyd ynghylch arwyddion, strwythurau, waliau, rheiliau, amseroedd atgyweirio a llwybrau beicio a dywedodd y byddai'n ystyried awgrymiadau yn y drafft terfynol i'r Cabinet.

Soniodd y Cynghorydd Owen Thomas am amserlenni ar gyfer atgyweirio ceudyllau a dywedodd bod tystiolaeth yn ei Ward eu bod yn aros am fisoedd i'w ceudyllau gael eu trwsio. Hefyd cyfeiriodd at gyflwr drwg rhai o balmentydd sydd yn anniogel i gerddwyr eu defnyddio oherwydd mwsogl ar yr arwyneb a choed a chloddiau sy'n hongian drosodd. Mynegodd y Cynghorydd Thomas ei

bryderon ynghylch diogelwch cyhoeddus a dywedodd y dylai preswylwyr fod yn gyfrifol am unrhyw ganghennau a deiliach sydd yn hongian dros lwybrau cyhoeddus.

Mewn ymateb i faterion a godwyd, eglurodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd bod y Polisi Gorfodi Amgylcheddol yn mynd i'r afael â'r mater o gloddiau yn hongian drosodd a diffygion ar balmentydd, a lle bo'n briodol roedd preswylwyr yn cael eu cynghori o'u cyfrifoldeb i gynnal eu ffiniau o ran tyfiant yn hongian drosodd.

Gan gyfeirio at waith atgyweirio ceudyllau, eglurodd y Prif Swyddog bod matrices ar gyfer gwaith ailwynebu ond nid ar gyfer atgyweirio ceudyllau, ac mai'r Cydlynnydd Ardal Strydwedd oedd y pwynt cyswllt ar gyfer adnabod a blaenoriaethu diffygion. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Andy Dunbobbin, cytunodd y Prif Swyddog i ddsbarthu'r dolen i'r ap riportio ar gyfer ceudyllau ar wefan Sir y Fflint.

Canmolodd y Cynghorydd Christopher Dolphin y polisi a holodd am ragor o wybodaeth am y broses i sicrhau bod y gwaith atgyweirio yn cael ei wneud ar ôl ei riportio. Gan roi sylw ar ffordd gyda mwy na 100 o geudyllau, teimlai bod angen hysbysu'r Aelodau lle'r oedd y gwaith atgyweirio ar y rhestr ac a oedd angen cymryd camau gweithredu neu peidio. Ailadroddodd y Prif Swyddog bod yr Aelodau angen cysylltu â'u Cydlynwyr Ardal Strydwedd a fyddai'n diweddarau ar y cynnydd. Mewn ymateb i gwestiwn pellach gan y Cynghorydd Dolphin, cynghorodd y Prif Swyddog bod y rhaglen cyweirio yn parhau ac yn cael ei arwain gan y Cydlynwyr Ardal. Cytunodd y Prif Swyddog a'r Cynghorydd Carolyn Thomas i gyflawni archwiliad o'r ardaloedd problemus gyda Chynghorydd Dolphin yn ei Ward.

Rhoddodd y Cynghorydd Derek Butler sylw y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfaint y traffig yn ogystal â hyd ffyrdd Sir y Fflint wrth dyrannu adnoddau.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn argymhell i'r Cabinet gymeradwyo Polisi Archwilio Priffyrdd a Meysydd Parcio diwygiedig (Atodiad 1) sydd yn amlinellu dull y Cyngor i holl archwiliadau diogelwch, meini prawf archwilio diffygion ac amseroedd ymateb.

23. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried.

Ceisiodd yr Hwylusydd safbwyntiau'r Pwyllgor ar gynnal cyfarfod ychwanegol ym mis Rhagfyr oherwydd y nifer o eitemau a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd. Cytunodd yr Aelodau i gynnal cyfarfod ychwanegol ar 11 Rhagfyr i ddechrau am 9am.

PENDERFYNWYD:

(a) Bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei newid; a

- (b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

24. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

25. ADRODDIAD GWYBODAETH – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR BARC TREFTADAETH DYFFRYN MAES GLAS

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) adroddiad i ddarparu diweddariad ar y sefyllfa cyfredol o Barc Treftadaeth Maes Dyffryn Glas. Rhoddodd gwybodaeth gefndir ac atgyfeiriodd at yr ystyriaethau allweddol, fel y nodir yn yr adroddiad, a chynnydd ar yr argymhellion Archwiliad Mewnol Sir y Fflint fel y nodwyd yn atodiad i'r adroddiad. Rhoddodd wahoddiad i Reolwr Yr Amgylchedd a Mynediad i roi diweddariad ar weithrediadau safle.

Soniodd Rheolwr Yr Amgylchedd a Mynediad am weithgareddau addysgiadol a gyflawnwyd gan 12 ysgol yn ystod tymor yr Haf, a dywedwyd bod mwy na 100 o ddigwyddiadau wedi'u cynnal y tymor hwn. Rhoddodd sylw i gynnydd yn y nifer o ymwelwyr a diddordeb ar gyfryngau cymdeithasol, ac eglurodd bod y gwelliant o gyflwyniad cyffredinol a safonau cynnal a chadw wedi arwain at Faes Dyffryn Glas i gael Gwobr Greenflag, a chael safon ymwelwyr aur gan Croeso Cymru.

Cyfeiriodd y Rheolwr Yr Amgylchedd Naturiol a Mynediad at waith gwella ac atgyweirio, ac arwyddion newydd a oedd wedi'u cyflawni a'u gosod ar lwybrau cerdded, llwybrau coetir, llwybrau blaenoriaeth a stepiau. Dywedodd bod arolwg defnyddwyr o gynnig Chwarae o fewn y safle wedi'i gwblhau yn ystod yr Haf, a bydd y canlyniadau yn cael eu dadansoddi yn ystod yr Hydref. Hefyd roedd cyfarfodydd wedi'u cynnal â'r Tîm Teithio Llesol i drafod y posibilrwydd o lwybr aml-ddefnydd drwy'r Dyffryn. Roedd Sustrans hefyd yn cyflawni astudiaeth ddichonoldeb o lwybrau posibl.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r diweddariad.

26. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol ac nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.55 am)

Cadeirydd